# Ymgynghoriad ar system reoleiddio newydd gan gynnwys amodau ar gyfer cofrestru a chyllido

## Cwestiwn 1. Ein bwriad yw bod yn rheoleiddiwr cymesur sy'n seiliedig ar risg yn unol â'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Strategol. Mewn perthynas â'n Dull Rheoleiddio arfaethedig:

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio yn cefnogi ein gallu i gyflawni amcanion ein Cynllun Strategol?**

Cytuno

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio yn cefnogi ein bwriad i fod yn rheoleiddiwr cymesur ac yn seiliedig ar risg?**

Cytuno

**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r athroniaeth, yr egwyddorion a'r disgwyliadau a nodir yn ein Dull Rheoleiddio?**

Cytuno

## Cwestiwn 2. A ellid gweithredu'r Dull Rheoleiddio, fel y'i nodir, yn gyson ar draws pob darparydd trydyddol?

Yn rhannol

Mae QAA yn croesawu'r bwriad i ddatblygu Dull Rheoleiddio sy'n berthnasol yn gyson ar draws y sector addysg drydyddol. Mae'r pwyslais ar gymesuredd, tryloywder ac ymgysylltu sy'n seiliedig ar risg yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer yr uchelgais hon.

Er mwyn cynorthwyo â gweithredu cyson, byddem yn annog mwy o eglurder ynghylch sut y bydd y dull yn darparu ar gyfer amrywioldeb y darparwyr a'r gwahanol lefelau o gymhlethdod a risg ar draws y sector. Er enghraifft, gall sefydliadau sydd â gweithgarwch ymchwil sylweddol, poblogaethau myfyrwyr rhyngwladol neu sy'n gweithredu ar sawl campws olygu ystyriaethau rheoleiddio gwahanol o'i gymharu â darparwyr llai neu ddarparwyr sy'n canolbwyntio'n fwy lleol.

Mae'r ddau fodel ymgysylltu a amlinellir yn y fframwaith monitro yn fan cychwyn defnyddiol. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol nodi'n gliriach sut y gwneir penderfyniadau ynghylch pa fodel sy'n berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau, a sut y caiff ymreolaeth sefydliadol ei chynnal ar draws y system. Mae angen mwy o dryloywder ynghylch sut mae risg yn cael ei hasesu a sut mae hyn yn llywio cymesuredd ymateb rheoleiddio Medr.

Byddem yn croesawu mwy o ymgysylltiad wrth i Medr fireinio eu dull o weithredu, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad system reoleiddio sydd yn gydlynol ac yn ymatebol.

## Cwestiwn 3. A yw'r Dull Rheoleiddiol yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y gwahanol Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllido a nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

Yn rhannol

Mae QAA o blaid y bwriad i ymgorffori'r Dull Rheoleiddio yn yr holl Amodau Cofrestru a Chyllido, yn enwedig y pwyslais ar gymesuredd, cyfrifoldeb darparwyr, a goruchwyliaeth yn seiliedig ar risg. Mae'r cysyniadau hyn yn ymddangos mewn sawl adran o'r fframwaith ac maent i'w croesawu.

Fodd bynnag, yn ystod y cam hwn o'r datblygiad, nid yw'r cysylltiad rhwng y Dull Rheoleiddio a'r amodau drafft yn gwbl gydlynol eto. Er bod llawer o'r elfennau cywir yn bresennol, gellid mynegi'n gliriach y ffordd y disgwylir i risg, cymesuredd ac ymatebolrwydd ddylanwadu ar wneud penderfyniadau rheoleiddiol o fewn yr amodau eu hunain, yn enwedig o ran sut y byddant yn llywio dwyster monitro neu'n sbarduno ymyriad.

Yn ogystal, byddai mwy o gysondeb rhwng athroniaeth gyffredinol y Dull Rheoleiddio a rhai o'r amodau mwy gweithredol (er enghraifft, ynghylch digwyddiadau y mae'n rhaid adrodd amdanynt neu drothwyon cynaladwyedd ariannol) yn helpu i atgyfnerthu hyder y bydd y dull yn cael ei weithredu fel y'i bwriadwyd yn ymarferol.

Byddem hefyd yn croesawu eglurder pellach ynghylch sut y bydd y Dull Rheoleiddio yn llywio gweithgaredd Medr ar draws gwahanol rannau o'r sector trydyddol, yn enwedig mewn perthynas â'r cydbwysedd rhwng sicrwydd a gwelliant parhaus.

### Sylwadau Ychwanegol

Mae QAA yn croesawu ymrwymiad Medr i dryloywder, cydweithio a gwelliant parhaus fel nodweddion canolog o'u Dull Rheoleiddio. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn dda â gwerthoedd ac egwyddorion QAA ei hun.

Rydym yn nodi ac yn croesawu'r cyfeiriad at y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) yn y ddogfennaeth. Er mai cyfeiriad byr ydyw, mae cynnwys hwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod y fframwaith yn cael ei ddatblygu gyda chydymffurfiaeth ryngwladol mewn golwg. Wrth i'r system esblygu, rydym yn annog sylw parhaus i egwyddorion ESG er mwyn sicrhau cymharedd byd-eang ac i gefnogi hyder partneriaid rhyngwladol yn y ddarpariaeth drydyddol yng Nghymru.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio'n adeiladol gyda Medr a'r sector i gefnogi datblygiad system reoleiddio gymesur, ddibynadwy ac effeithiol.

## Cwestiwn 4. Pwerau ymyrryd:

### I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr ymyriadau'n cyd-fynd â bwriadau'r Ddeddf?

Cytuno

### I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Datganiad o Ymyriadau'n cyd-fynd â'n Dull Rheoleiddio?

Cytuno

## Cwestiwn 5. A fyddai canllawiau atodol ar gyfer y Datganiad yn ddefnyddiol?

Byddent

### Nodwch y meysydd lle byddai canllawiau atodol yn ddefnyddiol:

Byddai canllawiau atodol yn ddefnyddiol i ategu eglurder a hyder wrth weithredu'r pwerau ymyrryd.

Mae'r meysydd lle byddai canllawiau pellach fwyaf gwerthfawr yn cynnwys:

- **Sbardunau uwchgyfeirio a throthwyon:** Byddai mwy o eglurder ynghylch sut y bydd Medr yn penderfynu pryd i symud o fonitro neu ymgysylltu arferol i ymyriadau ffurfiol (e.e. Cyfarwyddiadau neu ddadgofrestru) o gymorth i ddarparwyr o ran dealltwriaeth a chynllunio.

- **Gwahaniaethu rhwng ymyriadau penodol ac amhenodol:** Er bod yr hyblygrwydd i ddefnyddio'r naill a'r llall i'w groesawu, byddai mwy o fanylion ynghylch sut y gwneir penderfyniadau rhyngddynt yn gwella tryloywder a chysondeb.

- **Dyfarniad yn seiliedig ar risg**: Byddai darparwyr yn elwa o enghreifftiau darluniadol o sut y bydd Medr yn ystyried risg gyd-destunol (e.e. cymhlethdod sefydliadol, sefyllfa ariannol, model cyflwyno) wrth bennu natur neu ddwyster ymyriad.

- **Rhyngweithio â rhannau eraill o'r fframwaith:** Efallai y bydd gwerth mewn egluro sut mae ymyriadau'n perthyn ochr-yn-ochr â monitro a gweithgaredd gwelliant parhaus, a sut y gallai camau gweithredu sy'n ymwneud ag un elfen (e.e. digwyddiad y mae angen adrodd amdano) arwain at ymateb rheoleiddiol.

Byddai QAA yn croesawu deialog barhaus wrth i'r canllawiau hyn ddatblygu.

## Cwestiwn 6. Yn y Datganiad, rydym wedi darparu [dau fodel posibl] ar gyfer ein dull o ymgysylltu â'r darparwyr hynny rydym yn eu monitro – oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â hyn?

Mae QAA yn croesawu cynnwys y ddau fodel fel ffordd ddefnyddiol o ysgogi trafodaeth ledled y sector ynghylch natur ymgysylltiad rheoleiddiol. Mae'r naill a'r llall yn cynnig nodweddion adnabyddadwy: Mae Model 1 yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth wedi'i thargedu ac yn alinio ag egwyddorion rheoleiddio traddodiadol o ran ymreolaeth ac atebolrwydd sefydliadol, tra bod Model 2 yn cyflwyno perthynas fwy cyfannol a datblygiadol.

Fodd bynnag, byddem yn rhybuddio rhag cyflwyno'r modelau hyn fel dewis syml rhwng y naill a'r llall. Yn ymarferol, mae'n debyg y bydd rheoleiddio effeithiol yn gofyn am gymysgedd o'r ddau, gan gyfuno ymgysylltiad parhaus a chydweithredol â'r gallu i ymateb yn bendant ac yn gymesur i risg sy'n dod i'r amlwg. Yn wir, lle mae pryderon uniongyrchol neu ddifrifol, mae'n debyg y byddai angen i Medr ddychwelyd i Fodel 1 waeth beth fo'r model ymgysylltu sylfaenol. Efallai y byddai dull hyblyg, wedi'i addasu i gyd-destun a phroffil risg y darparydd, yn fwy priodol na chategoreiddio darparwyr yn ffurfiol.

Nodwn hefyd mai dim ond Model 1 sy'n cyfeirio'n benodol at ymreolaeth sefydliadol, egwyddor graidd rheoleiddio addysg uwch yn y DU. Byddem yn annog Medr yn gryf i ailgadarnhau'r egwyddor hon ar draws pob model o ymgysylltu.

Yn olaf, byddem yn croesawu mwy o eglurder ynghylch sut mae'r modelau hyn yn rhyngweithio â'r Datganiad ar Ymyrryd. Ar hyn o bryd, nid yw bob amser yn glir sut y byddai ymgysylltu cynnar o dan y naill fodel neu'r llall yn trosglwyddo i gamau mwy ffurfiol y fframwaith ar gyfer ymyrryd.

Edrychwn ymlaen at barhau i gynnal deialog ynghylch sut y gall model ymgysylltu ymatebol sy'n seiliedig ar risg ategu sicrwydd a gwelliant ar draws y sector addysg drydyddol.

## Cwestiwn 7. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch y dull arfaethedig o fonitro cydymffurfiaeth ag Amodau Cofrestru / Cyllido?

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad tuag at fodel monitro cymesur sy'n seiliedig ar risg. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder ynghylch sut y byddai'r system arfaethedig yn gweithredu'n ymarferol, yn enwedig o ran sut mae'r saith "gofyniad cydymffurfio" yn perthyn i'r saith piler yn y Fframwaith Ansawdd, a sut maent yn cysylltu â throthwyon penodol ar gyfer ymyrryd. Gallai hyn greu dryswch i ddarparwyr ynghylch yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio, sut maent yn dangos cydymffurfiaeth, a pha gamau y gellir eu cymryd os bydd pryder.

## Cwestiwn 8.

### Ansawdd a Gwelliant Parhaus

### A ellid gweithredu'r amod yn gyson ar draws pob darparydd trydyddol?

Na ellid

### A yw gofynion yr amod yn gymesur?

Nac ydyn

### A yw'r amod hwn yn rhoi digon o eglurder ynghylch y gofynion?

Nac ydy

### Oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r Amodau Cofrestru? Nodwch pa Amodau rydych chi'n cyfeirio atynt yn eich ymateb

Ansawdd a Gwelliant Parhaus

Mae QAA o blaid y nod o ymgorffori gwelliant parhaus a disgwyliadau clir ynghylch ansawdd yn y system reoleiddio. Fodd bynnag, mae gennym amheuon ynghylch y ffordd y mae'r amod Ansawdd a Gwelliant Parhaus wedi'i lunio ar hyn o bryd.

**Cysondeb:**

Mae'r amod wedi'i lunio mewn ffordd sy'n tybio bod pob darparydd eisoes yn gweithredu o fewn Fframwaith Ansawdd Medr. Gall hyn greu penbleth i ddarparwyr newydd, oherwydd rhaid iddynt ddangos cydymffurfiaeth â fframwaith nad ydynt eto’n perthyn iddo. Felly, mae'n annhebygol y bydd yr amod yn cael ei weithredu'n gyson ar draws darparwyr sy'n dod i mewn i'r system ar wahanol gamau o ddatblygiad neu o wahanol rannau o'r sector.

**Cymesuredd:**

Mae ehangder yr amod, sy'n ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio â holl "ddisgwyliadau a gofynion" y Fframwaith Ansawdd, mewn perygl o ddod yn rhy anhyblyg, a gallai fethu â rhoi ystyriaeth i amrywioldeb o ran cenhadaeth a'r mathau o ddarpariaeth ar draws addysg drydyddol. Byddai dull mwy cymesur yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddangos eu bod yn alinio ag egwyddorion a bwriad y fframwaith, yn hytrach na chydymffurfiaeth lawn o'r

cychwyn cyntaf.

**Eglurder:**

Mae dryswch rhwng geiriad yr amod (disgwyliadau a gofynion), y gofynion cydymffurfio a restrir mewn mannau eraill yn y fframwaith, a'r saith piler ansawdd. Ymddengys bod trefniadau monitro yn alinio'n agosach â'r pileri, gan greu ansicrwydd ynghylch beth sy'n cyfrif fel cydymffurfiaeth a pha dystiolaeth a ddisgwylir. Ar ben hynny, nid yw'n glir a fydd disgwyliadau sydd y tu allan i'r Fframwaith Ansawdd yn cael eu gosod ar ddarparwyr, ac os felly, beth ydynt. Mae absenoldeb diffiniad o drothwyon neu ganllawiau darluniadol yn ychwanegu at y diffyg eglurder hwn.

Rydym yn argymell ailystyried drafftio'r amod hwn i sicrhau ei fod yn glir, yn gymesur, ac yn ymarferol i bob math o ddarparwyr, yn enwedig ymgeiswyr newydd. Byddai cysylltiad cryfach rhwng yr amod hwn ac ymarferoldeb adolygu a monitro ansawdd hefyd i'w groesawu.

## Cwestiwn 9. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y drafftio yn nodi'n glir y sail statudol ar gyfer y Fframwaith a'r hyn y bwriedir iddo ei gyflawni?

Anghytuno

## Cwestiwn 10. A yw cwmpas y diffiniad o ansawdd yn briodol?

Nac ydy

### Pa eglurhad pellach sydd ei angen?

Byddai QAA yn croesawu mwy o eglurder ynghylch sut y bydd y diffiniad o ansawdd yn cael ei weithredu'n ymarferol. Mae'r ffurf bresennol yn rhy eang, gan gwmpasu "pob agwedd ar brofiad y dysgwr" ac yn cyfateb ansawdd â chyflawni canlyniadau da, ond mae'n cynnig rhy ychydig o ganllawiau ar yr hyn y mae'n rhaid i ddarparwyr ei ddangos mewn gwirionedd, neu sut y bydd ansawdd yn cael ei asesu'n gyson ar draws gwahanol gyd-destunau.

Mae yna ddatgysylltiad hefyd rhwng y diffiniad eang hwn a ffocws culach y saith piler, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar brosesau sefydliadol. Byddai mynegiant cliriach o sut mae'r diffiniad, y pileri, a'r gofynion cydymffurfiaeth yn gysylltiedig â'i gilydd yn gwella cysondeb.

Rydym hefyd yn awgrymu bod yn fwy penodol ynglŷn â rôl addysgu a dysgu o fewn y diffiniad, a sut y bydd ansawdd yn cael ei farnu'n annibynnol ar ganlyniadau, yn enwedig mewn achosion lle nad yw cynnydd neu foddhad myfyrwyr o reidrwydd yn rhoi darlun cyflawn o ansawdd academaidd. Yn olaf, byddai'n ddefnyddiol nodi a fydd darparwyr yn cael eu dal i unrhyw ddisgwyliadau'r tu hwnt i'r Fframwaith Ansawdd, ac os felly, sut y bydd y rhain yn cael eu cyfleu.

## Cwestiwn 11. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig yn briodol?

Cytuno

## Cwestiwn 12. Pa nodweddion arfaethedig o'r ffframwaith ansawdd fyddai cael yr effaith fwyaf / yn ychwanegu'r gwerth mwyaf o ran cynnal a gwella ansawdd dros amser?

Rydym yn croesawu strwythur a bwriad y Fframwaith Ansawdd, yn enwedig cynnwys nodweddion sy'n ategu sicrwydd a gwelliant. Mae gan nifer o'r elfennau arfaethedig, yn enwedig y saith piler a rôl asesu ansawdd allanol, botensial cryf i ategu gwelliant ansawdd cynaliadwy.

Yn benodol, rydym yn tynnu sylw at y canlynol:

- **Adolygiad allanol cylchol:** Mae cynnwys adolygiad rheolaidd, strwythuredig yn gryfder sylweddol. Mae'n cynnig cyfleoedd i fyfyrio, yn cefnogi hyder y cyhoedd, ac yn galluogi darparwyr i ymwneud yn ystyrlon â gwelliant yn ogystal â sicrwydd dros amser.

- **Hunan-werthuso:** Mae annog sefydliadau i werthuso eu perfformiad eu hunain yn nodwedd werthfawr. Pan gaiff ei ategu â disgwyliadau clir ac adolygiad priodol, mae'n galluogi darparwyr i gymryd perchnogaeth o'u hansawdd a gwreiddio gwelliant yn eu gweithgarwch craidd.

- **Allanoldeb:** Mae mewnbwn allanol yn dod ag annibyniaeth, her a mewnwelediad ehangach i'r sector. Dylid cadw ei rôl o fewn prosesau adolygu ac asesu a'i diffinio'n glir.

- **Dysgu a datblygiad proffesiynol**: Mae cynnwys hyn fel piler yn gydnabyddiaeth i'w groesawu bod arbenigedd staff ac arfer adfyfyriol yn hanfodol i ddarparu a chynnal amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel.

- **Ymgysylltiad dysgwyr a llais y dysgwr:** Mae'r rhain yn atgyfnerthu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr a, phan gânt eu gwreiddio'n ystyrlon, gallant ysgogi darpariaeth berthnasol ac ymatebol.

Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl, byddai'n ddefnyddiol egluro'r perthnasoedd rhwng y saith piler, y gofynion cydymffurfiaeth, a'r trefniadau monitro. Fel y cânt eu drafftio ar hyn o bryd, nid yw'r cydrannau hyn wedi'u halinio'n glir, a all achosi ansicrwydd i ddarparwyr.

Rydym hefyd yn awgrymu cryfhau cwmpas y Fframwaith o ran addysgu a dysgu; er bod hyn yn bresennol mewn manylion ategol, nid yw'n weladwy ar hyn o bryd o fewn y saith piler. O ystyried fod hyn yn ganolog i ansawdd mewn addysg uwch, byddai cyfeirio mwy penodol yn helpu i sicrhau ffocws cytbwys ar draws proses, mewnbwn a deilliannau.

## Cwestiwn 13. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig sy'n cynnwys strwythuro rolau a chyfrifoldebau ar draws pob piler?

Cytuno

## Cwestiwn 14. Pa ddull o asesu ansawdd allanol sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf o ran cynnal ac ysgogi gwelliant?

Mae dull o asesu ansawdd allanol sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf yn cyfuno adolygiad cylchol dan arweiniad cyfoedion â hunan-asesiad cryf gan ddarparwyr, yn ogystal â ffocws clir ar welliant. Mae'r model hwn, sy'n gyfarwydd mewn addysg uwch, yn darparu atebolrwydd, tra'n cefnogi gwelliant, gan alluogi darparwyr i adfyfyrio'n onest a dysgu o arfer

y sector.

Mae'r nodweddion allweddol sy'n ysgogi gwelliant yn cynnwys y canlynol:

- **Gall defnyddio adolygiad allanol dan arweiniad arbenigwyr neu gymheiriaid** wedi'i deilwra ar gyfer y cyd-destun, gynnig her gredadwy ac adeiladol. Mewn addysg uwch, mae hyn yn aml yn cynnwys adolygwyr academaidd ac adolygwyr sy'n fyfyrwyr, tra mewn rhannau eraill o'r system drydyddol gall gynnwys arolygwyr, ymarferwyr, neu arbenigwyr perthnasol eraill. Yr hyn sy'n allweddol yw bod allanoldeb yn sensitif i gyd-destun ac yn canolbwyntio ar welliant.

- **Cysondeb a thryloywder mewn canlyniadau a gyhoeddir**, sy'n meithrin hyder y cyhoedd

- **Cymhwysedd traws-sector**, ond gyda hyblygrwydd i adlewyrchu amrywioldeb y ddarpariaeth

- **Integreiddio â systemau ansawdd y darparwyr eu hunain**, gan annog perchnogaeth a gwelliant parhaus

- **Mae aliniad â safonau rhyngwladol, lle bo'n berthnasol**, a gyda chyfeirbwyntiau allweddol yn y sector, yn ychwanegu gwerth, tra'n cynnal hyder y cyhoedd a rhyngwladol. Mewn addysg uwch mae hyn yn cynnwys ESG, a Chôd Ansawdd y DU, tra ar gyfer rhannau eraill o'r sector, gall meincnodau cenedlaethol a fframweithiau arolygu fod yn berthnasol.

Mae dull o'r fath yn osgoi gorddibynnu ar fetrigau cul, ac yn hytrach yn hyrwyddo diwylliant o adfyfyrio'n feirniadol a chyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd.

## Cwestiwn 15. Mae'r Fframwaith yn nodi ystod o setiau data i gefnogi asesiadau o gydymffurfiaeth â'r Fframwaith ansawdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y ffynonellau data arfaethedig yn briodol?

Cytuno

### Nodwch unrhyw ddata arall y dylid ei ystyried:

Mae QAA yn cytuno bod y categorïau data a amlinellir yn Atodlen C (paragraff 57) yn darparu sylfaen addas ar y cyfan ar gyfer cynorthwyo ag asesiadau o gydymffurfiaeth â'r Fframwaith Ansawdd. Rydym yn croesawu'r pwyslais ar leihau'r baich trwy ddefnyddio ffynonellau data sy'n bodoli eisoes, a'r ymrwymiad i ddehongli cyd-destunol, yn enwedig fel y disgrifir ym mharagraff 60.

Rydym yn annog Medr i gryfhau'r adran hon trwy gyfeirio'n benodol at bwysigrwydd dadansoddi data yn ôl cyd-destun demograffig, lefel pwnc a sefydliadol perthnasol, er mwyn adlewyrchu amrywioldeb yn well ar draws y sector trydyddol. Er bod yr egwyddor hon yn cael ei chrybwyll, gellid ei gwneud yn fwy eglur.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at yr ymgynghoriad yn y dyfodol ar y diffiniad o ganlyniadau dysgwyr 'da', a fydd yn bwysig wrth benderfynu sut mae data'n cael ei ddehongli'n ymarferol a sut mae'n llywio dyfarniadau rheoleiddiol. Byddai QAA yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y gwaith hwn, gan dynnu ar ein profiad o adolygu ansawdd ar draws rhannau amrywiol o'r dirwedd drydyddol a'n dealltwriaeth o gyfeirbwyntiau allweddol y sector.

## Cwestiwn 16. A oes unrhyw flaenoriaethau eraill i'w hystyried mewn perthynas ag asesiad ansawdd allanol?

Oes

### Nodwch unrhyw ystyriaethau eraill mewn perthynas ag asesiad ansawdd allanol:

Un flaenoriaeth bwysig yw sicrhau bod asesiad ansawdd allanol yn parhau i fod yn gymesur ac yn seiliedig ar risg, yn enwedig gan fod y fframwaith yn berthnasol ar draws tirwedd drydyddol amrywiol. Gall model un-maint-i-bawb fod yn feichus yn weinyddol neu beri dyblygu i rai darparwyr, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn destun goruchwyliaeth allanol gadarn.

Yn ogystal, bydd eglurder ynghylch rolau priodol Medr, Estyn, QAA, a chyrff allanol eraill yn hanfodol er mwyn osgoi gorgyffwrdd a sicrhau bod adolygiadau'n ategu ei gilydd, yn hytrach na gwrthdaro. Dylai hyn gynnwys ystyried sut y gallai gweithgaredd adolygu ar y cyd neu wedi'i alinio leihau'r baich gan gynorthwyo â chydlyniant.

Yn olaf, dylai ymgorffori safbwyntiau dysgwyr a staff mewn prosesau asesu allanol, gan ddefnyddio dulliau sy'n addas i wahanol rannau o'r sector, barhau i fod yn nodwedd graidd o unrhyw fodel a fabwysiedir, gan gynnal dilysrwydd a gwerth datblygiadol.

## Cwestiwn 17. Mae'r Fframwaith yn nodi ystod o setiau data i ategu asesiadau o ansawdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y ffynonellau data arfaethedig yn briodol?

Cytuno

## Cwestiwn 18. Oes yna unrhyw ddata arall y dylid ei ystyried:

Oes

### Nodwch unrhyw ddata arall y dylid ei ystyried:

Er bod y categorïau arfaethedig yn briodol, byddai mwy o eglurder ynghylch sut y gellid cefnogi safonau academaidd, ansawdd addysgu, a chyflawniad myfyrwyr trwy ddata priodol yn cryfhau'r cydlyniad â chyfeirbwyntiau allanol fel ESG 1.7 a Chôd Ansawdd y DU.

## Cwestiwn 19. A yw'r adran yn egluro sut y bydd Medr yn ymyrryd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansawdd, safonau a gwelliant parhaus?

Nac ydy

### Pa eglurhad pellach sydd ei angen?

Er bod y fframwaith yn amlinellu ystod o fecanweithiau y gall Medr eu defnyddio, gan gynnwys digwyddiadau y mae angen adrodd amdanynt, ffurflenni sicrwydd a gwybodaeth gan drydydd partïon, nid yw'n diffinio'n glir y trothwyon na'r meini prawf ar gyfer ymyrryd mewn perthynas ag ansawdd, safonau, neu welliant parhaus.

Gellid nodi’r gwahaniaeth rhwng ymgysylltu cefnogol a gorfodi rheoleiddiol yn fwy penodol, a byddai mwy o eglurder ynghylch sut mae materion a nodwyd trwy fonitro neu adolygiad

allanol yn cyfrannu at y penderfyniad i ymyrryd yn gwella tryloywder a hyder y sector.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall i ba raddau y bydd adolygiad gan gymheiriaid neu welliant dan arweiniad darparwyr yn rhan o fodel ymyrryd Medr, yn enwedig ar gyfer addysg uwch.

## Cwestiwn 20. A oes unrhyw fylchau yn y Fframwaith y dylid mynd i'r afael â nhw?

Oes

### Nodwch unrhyw fylchau yn y Fframwaith:

Er bod Atodlen 1 i'r Fframwaith Ansawdd yn darparu cyd-destun defnyddiol sy'n benodol i'r sector, gan gynnwys cyfeiriad at ESG, y Côd Ansawdd, ac Addysg Draws-wladol (TNE), mae QAA yn credu bod sawl maes o hyd lle gellid cryfhau'r Fframwaith:

- **Mwy o eglurder ynghylch sut y bydd canllawiau penodol i'r sector yn cael eu rhoi ar waith**
  Er bod yr atodlen yn amlinellu cyfeirbwyntiau allweddol ar gyfer addysg uwch, nid yw'n glir eto sut y bydd y rhain yn llunio prosesau asesu yn ymarferol. Er enghraifft, a fydd sicrhau ansawdd mewnol sy'n alinio ag ESG yn cael ei ystyried yn ddigonol ar gyfer bodloni'r amod ansawdd, neu a fydd Medr yn sefydlu disgwyliadau sylfaenol ar wahân?

- **Integreiddio rhwng hunan-werthuso a chamau rheoleiddio**
  Mae'r Fframwaith yn hyrwyddo hunan-werthuso dan arweiniad darparwyr, ond nid yw'n egluro sut y bydd yr ymarferion hyn yn llywio penderfyniadau rheoleiddio neu'n lleihau baich ymyriad allanol. Mae hyn yn cyfyngu ar y potensial ar gyfer model gwirioneddol gymesur, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth.

- **Dim dull strwythuredig o osod metrigau perfformiad mewn cyd-destun**
  Er bod canlyniadau dysgwyr yn biler craidd, nid yw'r Fframwaith yn amlinellu sut y bydd ffactorau cyd-destunol (e.e. dull cyflwyno, cymysgedd pynciau, nodweddion dysgwyr) yn cael eu hystyried wrth ddadansoddi perfformiad. Heb hyn, mae risg o gamddehongli neu or-symleiddio data ynghylch deilliannau.

- **Mae yna angen am fynegiant clir o rolau a chydweithio rhwng Medr a chyrff ansawdd eraill**
  Byddai'r Fframwaith yn elwa o amlinellu'n glir gwahanol rolau a chyfrifoldebau Medr, QAA, Estyn a chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol. Byddai egluro sut y bydd y rhanddeiliaid hyn yn rhyngweithio ac yn cydweithio â Medr yn helpu i symleiddio goruchwyliaeth, lleihau dyblygu a rhoi sicrwydd i ddarparwyr sy'n rheoli nifer o berthnasoedd sicrhau ansawdd.

- **Diffyg gwelededd o ran ymgysylltiad darparwyr wrth ddatblygu methodolegau adolygu**
  Ar hyn o bryd nid oes unrhyw arwydd o sut y bydd Medr yn cynnwys y sector na myfyrwyr wrth lunio dulliau adolygu allanol yn y dyfodol. Byddai model mwy cydgynhyrchiol yn helpu i feithrin hyder a sicrhau bod dulliau adolygu yn briodol o ran cyd-destun ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

## Cwestiwn 21. A oes unrhyw elfennau penodol yn y drafft presennol y dylid eu pwysleisio neu eu cryfhau?

Oes

### Nodwch unrhyw elfennau penodol yn y drafft presennol y dylid eu pwysleisio a'u cryfhau:

Er bod y Fframwaith wedi'i strwythuro'n dda ar y cyfan, mae QAA yn credu y gellid pwysleisio neu ddatblygu'r meysydd canlynol ymhellach:

- **Mynegiant cliriach o 'welliant parhaus' yng nghyd-destun gwella addysg uwch**
  Rydym yn cydnabod bod "gwelliant parhaus" yn adlewyrchu terminoleg y Gymdeithas Ymchwil Dysgu ac Addysgu (TERA). Fodd bynnag, yng nghyd-destun addysg uwch, mae gan y cysyniad o welliant ystyr sefydledig, gydag arferion dan arweiniad y sector yn sail iddo yng Nghymru a ledled y DU. Byddai'r Fframwaith yn cael ei gryfhau trwy gydnabod y dull sefydledig hwn ac egluro sut mae iaith gwelliant parhaus yn alinio â gweithgaredd gwelliant neu'n ei gwmpasu.

- **Gosod hunan-werthuso a llywodraethiant dan arweiniad darparwyr mewn sefyllfa gryfach**
  Mae'r Fframwaith yn hyrwyddo hunan-werthuso trylwyr ac rydym o blaid hynny, ond gellid rhoi mwy o bwyslais ar rôl llywodraethiant mewnol a phrosesau sicrhau ansawdd wrth reoli risg ac ysgogi gwelliant. Byddai hyn yn helpu i ddynodi dull rheoleiddio cymesur ac yn meithrin hyder yn systemau'r darparwyr eu hunain.

- **Integreiddio llais y dysgwr yn ddyfnach mewn prosesau llywodraethiant ac ansawdd**
  Mae cynnwys llais y dysgwr fel piler i'w groesawu, ond gallai'r Fframwaith fynd ymhellach wrth fynegi disgwyliadau ar gyfer cynrychiolaeth ystyrlon i fyfyrwyr mewn llywodraethiant, adolygu ansawdd, a chynllunio gwelliant parhaus.

- **Gwella amlygrwydd ac esboniad Atodlen 1 fel cyfeirbwynt rheoleiddiol allweddol**
  Mae Atodlen 1 yn cynnwys fframweithiau pwysig sy'n benodol i'r sector, fel ESG a Chôd Ansawdd y DU, sy'n gyfeirbwyntiau hanfodol i ddarparwyr addysg uwch. Byddai mwy o bwyslais ac esboniad yn Atodlen 1 ei hun ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â chyfeirbwynt rheoleiddiol yn helpu i egluro disgwyliadau, gan gynnal hygyrchedd a chymhwysedd eang y brif ddogfen Fframwaith ar gyfer cynulleidfa amrywiol y sector trydyddol. Dylid cyfeirio at y rhain yn gliriach ym mhrif gorff y Fframwaith, gyda datganiad yn cadarnhau mai'r rhain yw'r cyfeirbwyntiau disgwyliedig ar gyfer darparwyr AU.

- **Egluro sut y bydd Medr yn cydweithio â chyrff ansawdd**
  Byddai'r Fframwaith yn elwa o fwy o fanylion ynghylch sut mae Medr yn bwriadu gweithio gyda chyrff ansawdd allanol fel yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn, yn enwedig mewn meysydd lle gall rolau groesi. Bydd mynegiant clir o'r dull cydweithredol hwn yn helpu i osgoi dyblygu ac atgyfnerthu system sicrhau ansawdd gydlynol ar gyfer y sector trydyddol.

## Cwestiwn 22. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu ynghylch y Fframwaith Ansawdd, nodwch nhw yma:

Mae QAA yn croesawu'r cyfeiriad teithio cyffredinol a nodir yn y Fframwaith Ansawdd ac o blaid llawer o'i egwyddorion craidd, gan gynnwys y pwyslais ar ghanlyniadau dysgwyr, cyfrifoldeb darparwyr, a rheoleiddio cymesur. Rydym hefyd yn croesawu aliniad eang y Fframwaith ag ymagweddau at ansawdd mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n helpu i gefnogi cydlyniant ar lefel y system tra'n parchu cyfrifoldebau datganoledig.

Fodd bynnag, byddem yn annog Medr i ystyried y pwyntiau canlynol wrth i'r Fframwaith gael ei ddatblygu ymhellach:

- **Eglurder gweithredol ynghylch sut y bydd ansawdd yn cael ei asesu**: Rydym yn croesawu ymrwymiad Medr i weithio gyda QAA ac Estyn i leihau dyblygu a sicrhau cydlyniad ar draws asesiadau ansawdd allanol. Mae QAA eisoes wedi dechrau datblygu perthynas strategol a gweithredol gydag Estyn i alluogi mwy o gysondeb, ac edrychwn ymlaen at weld y perthnasoedd hyn yn datblygu ymhellach. Gan adeiladu ar hyn, mae cyfle i fynegi'n gliriach sut y bydd y Fframwaith Ansawdd yn rhyngweithio â threfniadau adolygu sy'n bodoli eisoes. Bydd model cydlynol sy'n integreiddio'r prosesau hyn, yn enwedig ar gyfer darparwyr sy'n destun sawl math o adolygiad allanol, yn helpu i leihau'r baich ac atgyfnerthu ymddiriedaeth rhwng y gwahanol gyrff mewn safonau a rennir.

- **Osgoi dyblygu trwy alinio â phrosesau adolygu sy'n bodoli eisoes**: Mae cyfle i ddiffinio'n gliriach sut y bydd Medr yn ymgysylltu â chyrff ansawdd allanol (e.e. QAA, Estyn) er mwyn sicrhau model cydlynol sy'n adeiladu ar brosesau adolygu presennol yn hytrach na'u dyblygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddarparwyr sy'n destun asesiadau ansawdd allanol lluosog.

- **Adolygiad cylchol dan arweiniad sefydliad gydag allanoldeb:** Byddai'n fanteisiol ystyried cynnwys cyfrifoldeb sefydliadol am adolygiad disgyblaethol neu lefel pwnc cylchol sy'n cynnwys arbenigedd allanol. Byddai hyn yn ategu hunan-werthuso ystyrlon, yn atgyfnerthu ymreolaeth darparwyr, ac yn darparu sylfaen gredadwy ar gyfer sicrhau ansawdd allanol. Byddai dull o'r fath yn efelychu arfer effeithiol mewn rhannau o'r DU, gan gynnwys model adolygu dan arweiniad sefydliadau'r Alban, a gallai ddarparu sylfaen gref i bwyslais y Fframwaith ar hunan-werthuso a gwelliant parhaus.

- **Adeiladu ymddiriedaeth trwy gyd-ddatblygu**: Bydd effeithiolrwydd y Fframwaith yn dibynnu i raddau helaeth ar sut y caiff ei weithredu. Byddem yn annog Medr i barhau i fabwysiadu dull cydgynhyrchiol gyda'r sector wrth ddatblygu methodolegau adolygu a chanllawiau cysylltiedig yn y dyfodol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y Fframwaith yn gredadwy ac yn ymarferol.

- **Cefnogi diwylliant sy'n seiliedig ar welliant**: Rydym yn croesawu cynnwys gwelliant parhaus fel piler a gofyniad statudol, a byddem yn annog Medr i gydnabod yn benodol sut mae hyn yn alinio â'r dulliau sy'n seiliedig ar welliant sydd eisoes wedi'u gwreiddio mewn addysg uwch. Byddai hyn yn helpu i gynnal cysondeb â normau sefydledig y sector, yn ogystal â chefnogi diwylliant cadarnhaol o welliant. Mae hefyd yn cynorthwyo deialog rhwng gwledydd ar wella ansawdd, gan alluogi darparwyr a chyrff ansawdd i rannu dysgu ledled y DU tra'n cynnal fframweithiau cenedlaethol penodol.

- **Cynaliadwyedd a chapasiti hirdymor**: Yn olaf, rydym yn annog Medr i ystyried yr adnoddau a'r capasiti sefydliadol sydd eu hangen i gyflawni yn erbyn pob agwedd ar y Fframwaith.

## Cwestiwn 23. A yw'r Atodlen hon yn ystyried y dogfennau a'r gofynion allweddol eraill ar gyfer pob rhan o'r sector?

Ydy

### Pa wybodaeth bellach sydd ei hangen?

Yn gyffredinol, mae QAA yn credu bod yr Atodlen yn darparu cyfeirnodau defnyddiol sy'n benodol i'r sector, yn enwedig ar gyfer addysg uwch. Rydym yn croesawu cynnwys fframweithiau allweddol fel:

- Y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ)
- Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch
- Datganiadau meincnod pwnc
- Y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG)
- Cynllun Gwerthuso Ansawdd a Gwella Addysg Drawswladol y DU (QE-TNE) QAA

Mae'r cyfeirnodau hyn yn briodol ac yn arwydd o rywfaint o barhad â disgwyliadau ansawdd sy'n bodoli eisoes ar draws y DU ac Ardaloedd Addysg Uwch Ewrop.

Fodd bynnag, byddem yn argymell mireinio'r Atodlen ymhellach i'w chryfhau:

1. **Gwneud y berthynas rhwng yr Atodlen a'r prif Fframwaith yn fwy eglur**
   Nid yw prif gorff y Fframwaith Ansawdd yn cyfeirio darllenwyr yn glir at Atodlen 1. Byddai croesgyfeiriad cliriach, gan gynnwys esboniad bod y dogfennau sy'n benodol i'r sector yn yr Atodlen yn cael eu hystyried yn hanfodol i gydymffurfiaeth, yn lleihau amwysedd ac yn atgyfnerthu eu perthnasedd.

2. **Egluro statws y dogfennau y cyfeirir atynt (canllawiau vs. gofyniad)**
   Byddai'n ddefnyddiol egluro pa ddogfennau penodol i'r sector sy'n gyfeirbwyntiau gorfodol o gymharu â'r rhai sy'n ddarluniadol neu'n cynnig cyngor. Er enghraifft, a ddisgwylir i ddarparwyr ddangos cydymffurfiaeth â'r Cod Ansawdd, neu a yw aliniad yn ddigonol?

3. **Ehangu cwmpas yr Atodlen i rannau eraill o'r sector**
   Er bod yr adran AU wedi'i datblygu'n dda, mae'r canllawiau ar gyfer darparwyr addysg drydyddol eraill (e.e. dysgu oedolion, prentisiaethau) yn gymharol gyfyngedig. Gellid cryfhau'r Atodlen trwy nodi cyfeirbwyntiau neu ddogfennau rheoleiddio awdurdodol tebyg sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

4. **Diweddaru a chynnal deunyddiau atgyfeirio**
   Rydym yn argymell sefydlu proses i sicrhau bod y dogfennau canllaw y cyfeirir atynt yn yr Atodlen yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn fframweithiau cenedlaethol a rhyngwladol.

## Cwestiwn 24. A ellid newid y cynigion i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol ar y canlynol:

### Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg:

Gellid

### Rhowch fanylion:

Trwy osod y Gymraeg fel Amod Cofrestru ac Amod Cyllido parhaus, mae gan y cynigion y potensial i gryfhau cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg. Gellid cryfhau'r cynigion ymhellach trwy nodi disgwyliadau darparwyr cofrestredig mewn perthynas â'r iaith Gymraeg,

a dwyn ynghyd yr ystod o ddisgwyliadau a awgrymir yn y ddogfen ymgynghori drwyddi draw mewn ffordd sy'n cefnogi nod strategol Medr yn gliriach, sef "Annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am ddysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg." Er enghraifft, o dan Atodlen C – Meini Prawf ar gyfer Asesu Ansawdd Addysg paragraff 20, mae'n nodi bod "ystyriaethau o ran y Gymraeg a dwyieithog wedi'u gwreiddio ym mhob un o'r pileri". Fodd bynnag, dim ond o dan y piler Llais y Dysgwr (paragraff 28), y piler Hunan-werthuso (paragraff 36) a'r piler Dysgu a Datblygu Proffesiynol (paragraff 44) y nodir ystyriaethau penodol ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## Cwestiwn 25. A ellid newid y cynigion i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol ar y canlynol:

### Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Gellid

### Rhowch fanylion:

Nodir y canlynol yn Atodiad C paragraff 5: "Mae'r fframwaith hwn… yn cydnabod bod disgwyl i ddarparwyr gydymffurfio ag ystod o ddeddfwriaeth a gofynion, gan gynnwys… safonau'r Gymraeg". Nid yw'n glir a yw'r hyn a awgrymir yma'n golygu y bydd yn rhaid i bob darparydd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg p'un a ydynt wedi cael Hysbysiad Cydymffurfiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ai peidio (ac, os felly, pa safonau).

## Cwestiwn 26. A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?

Byddant

### Rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

Mae i'r cynigion y potensial i gyfrannu mewn ffordd ystyrlon at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn enwedig:

- **Cymru ffyniannus** – Trwy ymgorffori gwelliant parhaus a ffocws ar ddeilliannau dysgwyr, mae'r fframwaith yn cynorthwyo addysg drydyddol o ansawdd uchel a all arfogi dysgwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer twf economaidd cynaliadwy.

- **Cymru fwy cyfartal** – Mae'r pwyslais ar lais y dysgwr, cefnogaeth i anghenion dysgu amrywiol, a defnyddio data i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad a chyrhaeddiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at fynd i'r afael ag anfantais systemig.

- **Cymru â diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu** – Mae integreiddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y fframwaith drwyddo draw yn helpu i hyrwyddo bywiogrwydd ieithyddol a diwylliannol ar draws y system drydyddol.

- **Cymru wydn ac iachach** – Mae cynnwys llesiant dysgwyr a staff fel ffocws rheoleiddiol yn cydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl a gwydnwch fel rhan o system addysg gynaliadwy.

Trwy gefnogi darpariaeth gynhwysol o ansawdd uchel a gwelliant ar draws y system, mae'r cynigion yn cyd-fynd yn dda ag ethos ataliol, hirdymor ac integredig y Ddeddf. Bydd ffocws parhaus ar weithredu ac effaith yn hanfodol er mwyn gwireddu'r manteision hyn yn

ymarferol.

## Cwestiwn 27. A yw'r cynigion yn ystyried yr angen am y canlynol:

**Dileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

Ydyn

**Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?**

Ydyn

**Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?**

Ydyn

**Lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais gymdeithasol-economaidd?**

Ydyn

**Os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar effaith y rheoliadau arfaethedig ar gydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, nodwch nhw yma:**

Mae'r cynigion yn cymryd camau cadarnhaol i ymgorffori cydraddoldeb a chynhwysiant, yn enwedig trwy ganolbwyntio ar welliant parhaus sy'n seiliedig ar ddata. Maent hefyd yn dangos ymwybyddiaeth o anfantais economaidd-gymdeithasol fel dimensiwn allweddol o anghydraddoldeb. I gryfhau hyn ymhellach, byddem yn croesawu disgwyliadau cliriach ynghylch dadansoddiad croestoriadol a chyd-greu gyda grwpiau dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn gweithgareddau hunan-werthuso a gwelliant.

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)